



Cyflwyniad i efelychu digidol ym maes gofal iechyd



Cyflwyniad i efelychu digidol ym maes gofal iechyd



OpenLearn

Free learning from
The Open University

This item contains selected online content. It is for use alongside, not as a replacement for the module website, which is the primary study format and contains activities and resources that cannot be replicated in the printed versions.

Gwybodaeth am y cwrs hwn sydd am ddim

Mae'r cwrs rhad ac am ddim hwn yn gysylltiedig â chymhwyster y Brifysgol Agored

[R39 BSc \(Anrhydedd\) Nyrsio](#).

Gall y fersiwn hwn o'r cynnwys gynnwys fideo, delweddau a chynnwys rhyngweithiol nad yw o bosibl wedi'i optimeiddio ar gyfer eich dyfais.

Gallwch brofi'r cwrs hwn sydd am ddim fel y cafodd ei ddylunio'n wreiddiol ar OpenLearn, sef cartref dysgu am ddim gan y Brifysgol Agored –

<https://www.open.edu/openlearn/health-sports-psychology/an-introduction-digital-simulation-healthcare/content-section-0>

Byddwch hefyd yn gallu olrhain eich cynnydd yn fan honno drwy eich cofnod gweithgaredd, y gallwch ei ddefnyddio i ddangos eich dysgu.

Cyhoeddwyd gyntaf 2025.

Oni nodir yn wahanol, hawlfraint © 2025 Y Brifysgol Agored, cedwir pob hawl.

Eiddo deallusol

Oni nodir yn wahanol, caiff yr adnodd hwn ei ryddhau o dan delerau Trwydded Creadigol Cyffredin f4.0 <http://creativecommons.org/licenses/by-nc-sa/4.0/deed.en>. O fewn hynny mae'r Brifysgol Agored yn dehongli'r drwydded hon yn y ffordd ganlynol:

www.open.edu/openlearn/about-openlearn/frequently-asked-questions-on-openlearn. Mae hawlfraint a hawliau sydd y tu hwnt i delerau'r drwydded Creadigol Cyffredin yn cael eu cadw a'u rheoli gan y Brifysgol Agored. Darllenwch y testun llawn cyn defnyddio unrhyw ran o'r cynnwys.

Credwn mai'r prif rwystr rhag cael mynediad at brofiadau addysgol o ansawdd uchel yw cost, a dyna pam ein bod yn ceisio cyhoeddi cymaint o gynnwys am ddim â phosibl o dan drwydded agored. Os bydd hi'n anodd rhyddhau cynnwys o dan y drwydded Creadigol Cyffredin sydd orau gennym (ee oherwydd nad ydym yn gallu cael neu fforddio'r caniatâd perthnasol neu ddod o hyd i ddewis arall addas), byddwn yn rhyddhau'r deunyddiau am ddim o hyd o dan drwydded defnyddiwr personol.

Y rheswm am hyn yw y bydd y profiad dysgu bob amser yn golygu'r un cynnig o ansawdd uchel, a dylid ystyried hynny yn rhywbeth cadarnhaol bob amser - hyd yn oed os yw'r trwyddedu'n wahanol i drwyddedu Creadigol Cyffredin ar adegau.

Wrth ddefnyddio'r cynnwys, mae'n rhaid i chi ein priodoli ni (y Brifysgol Agored) ac unrhyw awdur a enwyd yn unol â thelerau'r drwydded Creadigol Cyffredin.

Defnyddir yr adran Cydnabyddiaeth i restru cynnwys trwyddedig trydydd parti (Perchnogol), ymhlith pethau eraill, sydd ddim yn atebol i drwyddedu Creative Commons. Mae'n rhaid defnyddio (cadw) cynnwys perchnogol yn gyfan ac yng nghyd-destun y cynnwys bob amser.

Defnyddir yr adran Cydnabyddiaethau i restru, ymhlith pethau eraill, cynnwys trwyddedig, trydydd parti (Perchnogol), nad yw'n destun i drwyddedu Creadigol Cyffredin. Er enghraifft, efallai y bydd adegau pan nad yw trwydded Creadigol Cyffredin Anfasnachol 'Sharealike' yn berthnasol i unrhyw ran o'r cynnwys, hyd yn oed os yw'n eiddo i ni (Y Brifysgol Agored). Yn yr achosion hyn, oni nodir yn wahanol, gellir defnyddio'r cynnwys at ddefnydd personol ac anfasnachol.

Rydym hefyd wedi nodi deunydd arall sydd wedi'i gynnwys yn y cynnwys nad yw'n destun i Drwydded Creadigol Cyffredin, fel deunydd Perchnogol. Ymhlith y rhain mae logos OU ac enwau masnachu, a gallant ymestyn i rai delweddau ffotograffig a fideo a recordiadau sain, ac unrhyw ddeunydd arall y gellir ei ddwyn i'ch sylw.

Mae'n bosibl y bydd defnyddio unrhyw ran o'r cynnwys heb awdurdod yn torri telerau ac amodau a/neu ddeddfau eiddo deallusol.

Rydym yn cadw'r hawl i newid neu ddiwygio unrhyw delerau ac amodau a ddarparwyd yma, neu ddod â hwn i ben heb rybudd.

Mae'r holl hawliau y tu allan i delerau'r drwydded Creadigol Cyffredin yn cael eu cadw neu eu rheoli gan y Brifysgol Agored.

Pennaeth Eiddo Deallusol, Y Brifysgol Agored

Contents

Cyflwyniad	6
Deilliannau dysgu	9
1 Beth yw efelychu digidol?	10
2 Manteision efelychiad digidol	11
3 Cyfyngiadau efelychu digidol mewn addysg gofal iechyd	12
4 Sut mae efelychiad digidol yn helpu i gynyddu ymwybyddiaeth, gwybodaeth a sgiliau ym maes gofal iechyd?	14
5 Sut mae efelychiad digidol yn lleihau'r risg i ofal cleifion?	15
6 Canllawiau efelychu digidol ym maes gofal iechyd	17
6.1 Strategaeth addysg a hyfforddiant Cymru gyfan sy'n seiliedig ar efelychu	17
7 Dulliau gwahanol mewn efelychiad	21
8 Sesiwn ôl-drafod i gefnogi dysgu ar sail efelychu	23
8.1 Egwyddorion ôl-drafodaeth	23
9 Dulliau ôl-drafodaeth	26
9.1 Dulliau o gael ôl-drafodaeth	26
Casgliad	29
Cyfeiriadau	30
Cydnabyddiaethau	35

Cyflwyniad

Mae efelychu yn cynnig amgylchedd dysgu diogel i weithwyr gofal iechyd proffesiynol, gan arwain at baratoi gwell a gofal mwy diogel i gleifion. Mae'r cwrs hwn yn archwilio rôl efelychu digidol wrth wella dysgu ac ymarfer clinigol, gan gynnwys ôl-drafodaethau. Mae'n archwilio'r egwyddorion y tu ôl i efelychiad digidol, ei fuddiolwyr, a'i effaith ar gleifion a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol.



Drwy gydol y cwrs, byddwch yn darllen ac yn archwilio'r adnoddau sydd wedi'u hymgorffori ac yn cwblhau tasgau myfyrio i archwilio eich meddyliau, eich teimladau a'ch profiadau gydag efelychiad digidol. Bydd y gweithgareddau hyn yn eich helpu i ystyried

sut i ymgorffori efelychiad digidol yn eich gwaith clinigol ymarferol yn ogystal â'ch gwaith academiaidd. Mae cwisiau i werthuso eich dysgu wrth i chi symud ymlaen drwy'r cwrs. Daw llawer o'r adnoddau o ffynonellau o bob cwr o'r byd, gan adlewyrchu arwyddocâd efelychu ac efelychu digidol mewn addysg ymarfer gofal iechyd.

Mae'r cwrs rhad ac am ddim hwn yn gysylltiedig â chymhwyster y Brifysgol Agored [R39 BSc \(Anrhydedd\) Nyrsio](#) .

Deilliannau dysgu

Ar ôl astudio'r cwrs hwn, dylech allu:

- deall yr egwyddorion y tu ôl i efelychiad digidol
- nodi manteision efelychu digidol i gyfranogwyr
- gwerthuso effaith bosibl efelychiadau digidol ar gleifion a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol
- datblygu dealltwriaeth o egwyddorion ôl-drafod.

1 Beth yw efelychu digidol?

Mae efelychiad digidol gofal iechyd yn defnyddio technolegau uwch i greu senarios realistig ar gyfer hyfforddi, gwerthuso a gwella arferion gofal iechyd. Dyma rai cymwysiadau allweddol:

1. Hyfforddiant proffesiynol gofal iechyd: mae hyfforddiant sy'n seiliedig ar efelychu yn caniatáu i weithwyr gofal iechyd proffesiynol ymarfer gweithdrefnau a gwneud penderfyniadau mewn amgylchedd heb risg. Mae hyn yn cynnwys defnyddio manecwiniad, realiti rhithwir, a realiti estynedig (AR) i efelychu sefyllfaoedd clinigol go iawn fel llawdriniaethau, ymatebion brys, a gweithdrefnau gofal iechyd arferol.
2. Gwella gofal cleifion: gellir defnyddio efelychiadau i fodelu prosesau gofal cleifion a nodi gwelliannau posibl. Gellir datblygu efelychiadau o gofnodi digwyddiadau i gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o sut i reoli sefyllfaoedd yn unol â hynny.
3. Fframweithiau rheoleiddio: defnyddir efelychu hefyd i werthuso technolegau iechyd digidol o safbwynt rheoleiddio. Er enghraifft, [mae'r fframwaith Efelychu ar gyfer Rheoleiddio SaMD \(SIROS\)](#) yn helpu i asesu dulliau efelychu clinigol i sicrhau eu bod yn bodloni safonau rheoleiddio, a gellir gweld y safonau'r Association for Simulated Practice in Healthcare (ASPiH) llawn [yma](#).

Mae'r rhaglenni hyn yn tynnu sylw at sut mae efelychu digidol yn trawsnewid gofal iechyd drwy wella addysg, gwella gofal cleifion, ac yn cefnogi'r gwaith o werthuso technolegau arloesol.

Er bod efelychu ac efelychu digidol yn trawsnewid addysg ym maes gofal iechyd, mae'r profiad dysgu efelychiadol yn cynnig agwedd 'beth' i'r profiad dysgu. Fodd bynnag, gall proses bellach fel ôl-drafodaeth gynnig cyfleoedd dysgu ychwanegol i archwilio dysgu ehangach a dyfnach ynglŷn â 'pam' a 'sut' gall dysgu o brofiad rhithwir droi'n welliannau diriaethol mewn ymarfer gofal iechyd.

2 Manteision efelychiad digidol

Mae efelychu digidol ym maes gofal iechyd yn cynnig nifer o fanteision sy'n gwella hyfforddiant gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a gofal cleifion.



Edrychwch ar y [darllynydd gofal iechyd](#) i gael trosolwg o efelychiad ym maes gofal iechyd. Dyma rai manteision allweddol:

1. Gwell diogelwch i gleifion: drwy ganiatáu i weithwyr gofal iechyd proffesiynol ymarfer triniaethau cymhleth mewn amgylchedd ffug, mae'r risg o gamgymeriadau yn ystod gofal cleifion go iawn yn lleihau'n sylweddol.
2. Caffael sgiliau'n well: mae ymarfer dro ar ôl tro mewn lleoliad diogel a rheoledig yn helpu dysgwyr i fireinio eu technegau, datblygu'r cof cyhyrau, a meithrin hyder.
3. Mae hyfforddiant sy'n seiliedig ar efelychu yn cynnig cost-efeithiolrwydd hirdymor drwy leihau'r defnydd o ddeunyddiau traul a galluogi ailddefnyddio offer, sy'n gwrthbwysu'r buddsoddiad cychwynnol.
4. Gwaith tîm a chyfathrebu: mae efelychiadau'n aml yn cynnwys senarios tîm, sy'n helpu i wella cyfathrebu a chydweithio ymysg gweithwyr gofal iechyd proffesiynol.
5. Hyfforddiant safonedig: Mae efelychiadau digidol yn cynnig profiad hyfforddi cyson i bob dysgwr, gan sicrhau bod pawb yn bodloni'r un safonau cymhwysedd uchel.
6. Adborth ar unwaith: Mae dysgwyr yn cael adborth ar eu perfformiad ar unwaith, sy'n eu galluogi i nodi a chywiro camgymeriadau'n gyflym.
7. Hygyrchedd: mae modd cael gafael ar efelychiadau digidol o bell, gan wneud hyfforddiant yn fwy hygyrch i weithwyr gofal iechyd proffesiynol beth bynnag fo'u lleoliad.

Mae'r manteision hyn yn tynnu sylw at sut mae efelychiad digidol yn trawsnewid gofal iechyd drwy wella ansawdd hyfforddiant a gwella canlyniadau i gleifion.

3 Cyfyngiadau efelychu digidol mewn addysg gofal iechyd

1. Diffyg profiad yn y byd go iawn: ni all efelychiadau ailadrodd natur anrhagweladwy a chymhlethdod sefyllfaoedd clinigol go iawn yn llawn. Gall hyn gyfyngu ar allu myfyrwyr i ddatblygu sgiliau meddwl yn feirniadol a gwneud penderfyniadau mewn cyd-destun byd go iawn.
2. Problemau technegol: mae efelychiadau'n dibynnu'n fawr ar dechnoleg, sydd weithiau'n gallu methu neu fod yn anodd ei defnyddio. Gall trafferthion technegol amharu ar ddysgu ac achosi rhwystredigaeth.
3. Costau uchel: gall datblygu a chynnal rhaglenni efelychu o ansawdd uchel fod yn ddrud. Mae hyn yn cynnwys cost meddalwedd, caledwedd a hyfforddiant i addysgwyr.
4. Hyfforddiant sgiliau rhyngbersonol cyfyngedig: er bod efelychiadau'n gallu addysgu sgiliau gweithdrefnol, efallai na fyddant yn addysgu sgiliau rhyngbersonol fel cyfathrebu, empathi a gwaith tîm yn effeithiol, sy'n hanfodol mewn gofal iechyd.
5. Hygyrchedd: mae'n bosibl na fydd gan bob myfyriwr fynediad at y dechnoleg angenrheidiol neu'r rhyngrwyd cyflym sydd ei hangen ar gyfer efelychu digidol effeithiol, gan arwain at wahaniaethau mewn cyfleoedd dysgu.
6. Gorddibyniaeth ar efelychu: mae perygl y bydd myfyrwyr yn dibynnu gormod ar efelychiadau ac na fyddant yn cael digon o brofiad ymarferol gyda chleifion go iawn.

Er gwaethaf y cyfyngiadau hyn, mae efelychiadau digidol yn parhau i fod yn adnodd gwerthfawr mewn addysg gofal iechyd, yn enwedig pan gânt eu defnyddio ar y cyd â dulliau addysgu eraill.

Gweithgaredd 1

 20 munud

Rhan 1: Myfrio

Gwnewch eich nodiadau eich hun i ymateb i'r cwestiynau canlynol.

Sut ydych chi'n teimlo am ddefnyddio efelychiadau digidol mewn addysg gofal iechyd?

- Meddyliwch am y cyfleoedd a'r cyfyngiadau posibl o ddefnyddio efelychiad digidol yn eich lleoliad ymarfer eich hun.
- Os yw'n bosibl, trafodwch hyn gyda chydweithiwr a gwnewch nodiadau ar eich casgliadau.

Provide your answer...

Rhan 2: Cwis

Cwestiwn 1: Pa un o'r canlynol sy'n un o brif fanteision efelychu digidol ym maes gofal iechyd o ran canlyniadau cleifion?

- a) Mae'n lleihau'n uniongyrchol yr angen am brofiad ymarferol i gleifion.

- b) Mae'n gwella diogelwch cleifion yn sylweddol drwy leihau camgymeriadau yn ystod triniaethau yn y byd go iawn.
- c) Mae'n disodli'r angen am ddatblygiad proffesiynol parhaus.
- d) Mae'n cyfyngu ar fynediad at hyfforddiant i weithwyr gofal iechyd proffesiynol o bell.

Cwestiwn 2: Mae efelychiadau digidol yn cyfrannu at gaffael sgiliau yn bennaf drwy'r canlynol:

- a) Angen cyn lleied o amser ymarfer â phosibl oherwydd technoleg uwch.
- b) Mae'n cynnig amgylchedd dysgu anhrefnus ac anrhagweladwy.
- c) Cynnig ymarfer dro ar ôl tro mewn lleoliad diogel a rheoledig i fireinio technegau a magu hyder.
- d) Canolbwyntio ar wybodaeth ddamcaniaethol yn unig heb ei chymhwyso'n ymarferol.

Cwestiwn 3: Un o fanteision allweddol efelychu digidol wrth feithrin sgiliau cydweithio ymysg gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yw:

- a) Mae'n annog ymarfer unigol, ynysig heb ryngweithio mewn grŵp.
- b) Mae'n aml yn ymgorffori senarios tîm i wella cyfathrebu a chydweithio.
- c) Mae'n dileu'r angen am unrhyw gyfarfodydd tîm wyneb yn wyneb.
- d) Mae'n cynnig strwythur hyfforddi anhyblyg, na ellir ei addasu.

4 Sut mae efelychiad digidol yn helpu i gynyddu ymwybyddiaeth, gwybodaeth a sgiliau ym maes gofal iechyd?

Mae efelychu digidol ym maes gofal iechyd yn cynyddu ymwybyddiaeth yn sylweddol mewn sawl ffordd (Darllenwyr Gofal Iechyd, 2025):

1. Senarios realistig: drwy greu senarios gofal iechyd realistig, mae efelychiadau digidol yn helpu gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i ddeall cymhlethdodau sefyllfaoedd yn y byd go iawn. Gall yr ymwybyddiaeth gynyddol hon arwain at well parodrwydd ac ymateb mewn lleoliadau clinigol go iawn.
2. Tynnu sylw at broblemau systemig: gall efelychiadau ddatgelu problemau systemig mewn prosesau gofal iechyd, fel dangos tagfeydd o ran llif cleifion neu fethiannau cyfathrebu. Mae nodi'r materion hyn yn helpu i ddatblygu strategaethau i fynd i'r afael â nhw, gan wella'r ddarpariaeth gofal iechyd gyffredinol.
3. Addysg cleifion: gellir defnyddio efelychiadau digidol hefyd i addysgu cleifion am eu cyflyrau a'u triniaethau. Drwy ddelweddu cyflwr gofal iechyd gan ddefnyddio senarios efelychiadol, mae cleifion yn cael gwell dealltwriaeth o'u hiechyd, sy'n gallu arwain at benderfyniadau mwy gwybodus a gwell cydymffurfiaeth â chynlluniau triniaeth.
4. Hyfforddiant a chymhwysedd: i weithwyr gofal iechyd proffesiynol, mae efelychiadau'n cynnig llwyfan i ymarfer a mireinio eu sgiliau. Mae'r arfer parhaus hwn yn cynyddu eu hymwybyddiaeth o arferion gorau a pheryglon posibl, gan arwain at lefelau cymhwysedd uwch.
5. Cydweithio rhyngddisgyblaethol: mae efelychiadau'n aml yn cynnwys nifer o ddisgyblaethau gofal iechyd yn gweithio gyda'i gilydd.

Drwy ddefnyddio efelychiadau digidol, gall systemau gofal iechyd wella ymwybyddiaeth a pharodrwydd gweithwyr proffesiynol a chleifion, gan arwain at ganlyniadau clinigol gwell a diogelwch cleifion.

5 Sut mae efelychiad digidol yn lleihau'r risg i ofal cleifion?

Mae efelychiad digidol yn lleihau'r risg i ofal cleifion mewn sawl ffordd effeithiol ac yn ystyried y pwyntiau canlynol.

1. Nodi bygythiadau diogelwch cudd: gall efelychiadau ddatgelu risgiau cudd mewn systemau gofal iechyd, fel diffygion dylunio neu aneffeithlonrwydd gweithdrefnol cyn iddynt achosi niwed. Drwy gynnal efelychiadau mewn amgylcheddau clinigol go iawn (efelychu yn y fan a'r lle), gall timau gofal iechyd nodi a mynd i'r afael â'r bygythiadau cudd hyn i ddiogelwch.
2. Gwell hyfforddiant a datblygu sgiliau: gall gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ymarfer triniaethau cymhleth ac ymatebion brys mewn amgylchedd wedi'i reoli, heb risg. Mae'r ymarfer hwn sy'n cael ei ailadrodd yn helpu i feithrin hyfedredd a hyder, gan leihau'r tebygolrwydd o gamgymeriadau yn ystod gofal gwirioneddol i gleifion.
3. Gwell gwaith tîm, sgiliau arwain a sgiliau cyfathrebu: mae efelychiadau yn aml yn cynnwys timau rhyngddisgyblaethol, gan hyrwyddo gwell cyfathrebu a chydweithio. Mae'r gwaith tîm hwn yn hanfodol mewn sefyllfaoedd lle mae llawer o straen, gan sicrhau bod holl aelodau'r tîm yn ymwybodol o'u rolau ac yn gallu cydweithio'n effeithiol.
4. Ystyriaeth ffactorau dynol: mae efelychiadau'n cyfrif am ffactorau dynol, fel straen a blinder, sy'n gallu effeithio ar berfformiad. Drwy hyfforddi mewn sefyllfaoedd realistig, gall gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ddatblygu strategaethau i reoli'r ffactorau hyn a chynnal safonau uchel o ofal.
5. Hyfforddiant safonedig: mae efelychiadau digidol yn cynnig profiad hyfforddi cyson i bob dysgwr, gan sicrhau bod pawb yn bodloni'r un safonau cymhwysedd uchel. Mae'r safoni hwn yn helpu i leihau amrywioldeb mewn gofal ac yn gwella diogelwch cyffredinol cleifion.

Ffynhonnell: [5 Rheswm Pam y Dylech Ystyried Efelychu i Liniaru Risg](#). Er bod yn rhaid cydnabod bod ganddynt 'fuddiant' mewn hyrwyddo efelychiad, roedd llawer o'r pum pwynt a gyflwynwyd uchod hefyd wedi ymddangos mewn cyhoeddiadau ymarfer gofal iechyd eraill, fel Knight et al, 2018 ac Ordu et al, 2019.

Drwy integreiddio efelychiad digidol mewn hyfforddiant ac ymarfer gofal iechyd, gellir lleihau'r risg i ofal cleifion yn sylweddol, gan arwain at ddarparu gofal iechyd mwy diogel a mwy effeithiol.

Gweithgaredd 2

 20 munud

Rhan 1: Myfyrio

Gwnewch eich nodiadau eich hun i ymateb i'r cwestiynau canlynol.

Pa werth allai efelychu digidol ei gynnig i chi a'ch maes gwaith?

- Ystyriwch y cyfleoedd a'r cyfyngiadau posibl o ddefnyddio efelychiad digidol yn eich lleoliad ymarfer eich hun.
- Os yw'n bosibl, trafodwch hyn gyda chydweithiwr a gwnewch nodiadau ar eich casgliadau.

Provide your answer...

Rhan 2: Cwis

Cwestiwn 1: Sut mae efelychiad digidol yn helpu i adnabod 'bygythiadau diogelwch cudd'?

- ☐ a) Drwy gyfyngu hyfforddiant yn llym i wybodaeth ddamcaniaethol.
- ☐ b) Drwy ddileu'r angen am unrhyw offer hyfforddi corfforol.
- ☐ c) Drwy ganiatáu ar gyfer efelychiadau mewn amgylcheddau clinigol go iawn (yn y fan a'r lle), datgelu risgiau cudd cyn i niwed ddigwydd.
- ☐ d) Drwy ganolbwyntio ar berfformiad unigol yn unig, nid diffygion yn y system.

Cwestiwn 2: Mae efelychiad digidol yn gwella diogelwch cleifion drwy wella'r broses o ddatblygu sgiliau, yn bennaf drwy'r canlynol:

- ☐ a) Dod i gysylltiad â gweithdrefnau newydd unwaith yn unig.
- ☐ b) Darparu amgylchedd di-risg ar gyfer ymarfer gweithdrefnau cymhleth ac ymatebion brys dro ar ôl tro.
- ☐ c) Cywiro pob gwall yn awtomatig heb ymyrraeth gan y dysgwyr.
- ☐ d) Canolbwyntio'n llwyr ar wybodaeth ddamcaniaethol nad oes angen ei chymhwyso'n ymarferol.

Cwestiwn 3: Pa agwedd ar waith tîm a chyfathrebu y tynnir sylw ati fel rhywbeth sy'n hanfodol i ddiogelwch cleifion mewn efelychiadau digidol?

- ☐ a) Lleihau'r rhyngweithio rhwng timau rhyngddisgyblaethol.
- ☐ b) Hyrwyddo gwell cyfathrebu a chydweithio o fewn timau rhyngddisgyblaethol yn ystod sefyllfaoedd o straen mawr.
- ☐ c) Annog unigolion i wneud penderfyniadau heb fewnbwn y tîm.
- ☐ d) Cyfyngu ar ymwybyddiaeth o rolau ymysg aelodau'r tîm.

6 Canllawiau efelychu digidol ym maes gofal iechyd

Mae canllawiau ar gyfer gweithredu efelychiad digidol mewn gofal iechyd ar gael mewn nifer o fframweithiau a phecynnau cymorth cynhwysfawr. Mae'r rhestr hon yn crynhoi nifer o'r ffynonellau hyn a'u dulliau gweithredu:

1. Gweledigaeth strategol genedlaethol ar gyfer efelychu ym maes iechyd a gofal: mae'r ddogfen hon yn amlinellu gweledigaeth ar gyfer integreiddio efelychu a thechnolegau dysgu ymdrochol mewn addysg ac ymarfer gofal iechyd. Mae'n pwysleisio pwysigrwydd arweinyddiaeth strategol, cydweithio ymysg rhanddeiliaid, a defnyddio technoleg i wella gofal cleifion a llesiant staff.
2. Fframwaith cenedlaethol ar gyfer Addysg Seiliedig ar Efelychu (SBE): datblygwyd hwn gan Health Education England (2018) ac mae'n cyflwyno egwyddorion arweiniol ar gyfer datblygu, darparu a chomisiynu addysg seiliedig ar efelychu. Mae'n canolbwyntio ar ganlyniadau ansawdd, arweinyddiaeth a llywodraethiant, dyrannu adnoddau strategol, datblygu cyfadrannau amlbroffesiwn, a sicrhau ansawdd.
3. Pecyn cymorth cenedlaethol ar gyfer efelychu ym maes iechyd a gofal: Mae'r pecyn cymorth hwn yn cefnogi'r gwaith o weithredu addysg sy'n seiliedig ar efelychu drwy roi canllawiau ymarferol ar ddatblygu cyfadrannau, dyrannu adnoddau a sicrhau ansawdd. Ei nod yw sicrhau safonau uchel wrth ddatblygu a darparu hyfforddiant efelychu.
4. Mae'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ([NMC, 2024](#)) yn diffinio efelychiad mewn addysg fel a ganlyn: 'Dull addysgol sy'n defnyddio amrywiaeth o ddulliau i gefnogi myfyrwyr i ddatblygu eu gwybodaeth, eu hymddygiadau a'u sgiliau, gyda'r cyfle i ailadrodd, rhoi adborth, gwerthuso a myfyrio i gyflawni canlyniadau eu rhaglen a chael eu cadarnhau fel rhai sy'n gallu ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol.' Mae'r diffiniad hwn yn pwysleisio'r defnydd o dechnegau efelychu amrywiol i wella dysgu, gan sicrhau y gall myfyrwyr ymarfer a mireinio eu sgiliau mewn amgylchedd a reolir cyn eu cymhwyso mewn lleoliadau yn y byd go iawn.

Gyda'i gilydd, mae'r adnoddau canlynol yn cynnig sylfaen gadarn ar gyfer integreiddio efelychiad digidol i ofal iechyd, gan sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol i wella hyfforddiant, diogelwch cleifion, ac ansawdd gofal cyffredinol.

- [Gwellu addysg, ymarfer clinigol a llesiant staff. Gweledigaeth genedlaethol ar gyfer rôl technolegau efelychu a dysgu ymdrochol mewn iechyd a gofal](#) (HEE, 2020).
- [Fframwaith cenedlaethol ar gyfer addysg seiliedig ar efelychu](#) (HEE, 2018).
- [Safonau ASPiH 2023 – ASPiH](#) (ASPiH, 2023.)
- [Safonau Arfer Gorau Efelychiad Gofal Iechyd](#) (INACSL, 2021).
- [Pecyn cymorth cenedlaethol i gefnogi'r defnydd o efelychu ym maes iechyd a gofal](#) (HEE, 2021).

6.1 Strategaeth addysg a hyfforddiant Cymru gyfan sy'n seiliedig ar efelychu

Mae strategaeth addysg a hyfforddiant Cymru gyfan sy'n seiliedig ar efelychu yn gynllun cynhwysfawr a ddatblygwyd i wella addysg a hyfforddiant sy'n seiliedig ar efelychu

(SBET) ar draws y gweithlu gofal iechyd yng Nghymru (AaGIC, 2022). Dyma rai pwyntiau allweddol:

1. Dull cydweithredol a chydlynol: mae'r strategaeth yn pwysleisio dull cydweithredol a chydlynol i sicrhau addysg a hyfforddiant sy'n seiliedig ar efelychu o ansawdd uchel, rhyngbroffesiynol a hygyrch. Mae hyn yn cynnwys ymgysylltu ag amrywiol randdeiliaid, gan gynnwys gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, addysgwyr a chynrychiolwyr lleig.
2. Nodau ac amcanion strategol: mae'r strategaeth yn amlinellu nifer o nodau strategol, gan gynnwys gwella diogelwch cleifion a defnyddwyr gwasanaethau, gwella profiadau dysgu, a sicrhau cost-effeithiolrwydd. Mae hefyd yn canolbwyntio ar hyrwyddo ansawdd, datblygu cyfadrannau, a defnyddio llwyfannau digidol.
3. Gweithredu a gwerthuso: mae'r strategaeth yn cynnwys cynlluniau manwl ar gyfer gweithredu a gwerthuso, gan sicrhau bod y mentrau'n cael eu hintegreiddio'n effeithiol i'r system gofal iechyd. Mae hyn yn cynnwys datblygiad proffesiynol parhaus, adolygiadau perfformiad, a defnyddio technolegau ymdrochol.
4. Cefnogi darpariaeth efelychu: mae'r strategaeth yn rhoi arweiniad ar gefnogi darpariaeth efelychu, gan gynnwys hygyrchedd, datblygiad rhyngbroffesiynol, ac ymchwil. Ei nod yw creu fframwaith addysg cynaliadwy o ansawdd uchel sy'n seiliedig ar efelychu.

Mae strategaeth addysg a hyfforddiant Cymru gyfan sy'n seiliedig ar efelychu yn cefnogi efelychiad mewn sawl ffordd:

1. Dysgu cydweithredol: mae'r strategaeth yn hyrwyddo dull cydweithredol a chydlynol o ymdrin ag addysg a hyfforddiant sy'n seiliedig ar efelychu, gan ymgysylltu ag amrywiol randdeiliaid, gan gynnwys gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, addysgwyr a chynrychiolwyr lleig.
2. Ansawdd a diogelwch: mae'n pwysleisio gwella diogelwch, profiadau a chanlyniadau cleifion a defnyddwyr gwasanaethau drwy addysg a hyfforddiant sy'n seiliedig ar efelychu o ansawdd uchel. Mae hyn yn cynnwys gweithredu arferion gorau ac egwyddorion gwella ansawdd.
3. Hygyrchedd a chynhwysiant: Mae'r strategaeth yn sicrhau bod addysg a hyfforddiant sy'n seiliedig ar efelychu yn hygyrch ac yn gynhwysol, gan roi cyfleoedd ar gyfer datblygiad rhyngbroffesiynol a datblygiad proffesiynol parhaus.
4. Llwyfannau digidol a thechnolegau ymdrochol: mae'n annog defnyddio llwyfannau digidol a thechnolegau ymdrochol i wella profiadau dysgu a gwneud efelychu'n fwy effeithiol a diddorol.
5. Datblygu cyfadrannau: mae'r strategaeth yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu cyfadrannau fedrus i ddarparu hyfforddiant efelychu o ansawdd uchel. Mae hyn yn cynnwys rhoi adnoddau ac arweiniad ar gyfer datblygu cyfadrannau ac adolygiadau perfformiad. Cynnwys Dysgu Parhaus: Mae'r strategaeth yn pwysleisio pwysigrwydd DPP i sicrhau bod gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn diweddarau eu sgiliau a'u gwybodaeth yn barhaus. Mae hyn yn cynnwys sesiynau hyfforddi rheolaidd, gweithdai, a mynediad at y technolegau a'r methodolegau efelychu diweddaraf.
6. Datblygiad rhyngbroffesiynol: mae'r strategaeth yn hyrwyddo datblygiad rhyngbroffesiynol drwy annog sesiynau hyfforddi cydweithredol lle gall gweithwyr gofal iechyd proffesiynol o wahanol ddisgyblaethau ddysgu ac ymarfer gyda'i gilydd. Mae hyn yn helpu i wella gwaith tîm a sgiliau cyfathrebu, sy'n hanfodol ar gyfer gofal cleifion.
7. Profiadau dysgu ar y cyd: mae'n cefnogi profiadau dysgu ar y cyd drwy senarios efelychu sy'n cynnwys sawl rôl gofal iechyd, gan feithrin gwell dealltwriaeth o gyfrifoldebau ei gilydd a gwella cydlynid gofal cyffredinol.

8. Ymchwil ac ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth: mae'n hyrwyddo ymchwil ac ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth i wella addysg a hyfforddiant sy'n seiliedig ar efelychu'n barhaus a sicrhau ei fod yn diwallu anghenion newidiol y gweithlu gofal iechyd.

Gyda'i gilydd, mae'r elfennau hyn yn sicrhau bod efelychu'n cael ei integreiddio'n effeithiol i addysg a hyfforddiant gofal iechyd yng Nghymru, gan fod o fudd i weithwyr gofal iechyd proffesiynol a chleifion yn y pen draw.

Gweithgaredd 3

 20 munud

Rhan 1: Myfyrio

Gwnewch eich nodiadau eich hun i ymateb i'r cwestiynau canlynol.
Sut gallech/fyddech chi'n gwneud efelychu digidol yn hygyrch i bawb?

- Meddyliwch am y cyfleoedd a'r cyfyngiadau posibl o ddefnyddio efelychu digidol yn eich lleoliad ymarfer eich hun.
- Os yw'n bosibl, trafodwch hyn gyda chydweithiwr a gwnewch nodiadau ar eich casgliadau.

Provide your answer...

Rhan 2: Cwis

Cwestiwn 1: Beth yw un o brif elfennau strategaeth addysg a hyfforddiant Cymru gyfan sy'n seiliedig ar efelychu o ran ei dull gweithredu?

- ☐ a) Gweithredu ynysig o'r brig i lawr gan un awdurdod.
- ☐ b) Dull cydweithredol a chydlynol sy'n cynnwys gwahanol randdeiliaid.
- ☐ c) Sylw unigryw ar hyfforddiant meddygon teulu.
- ☐ d) Cyfyngu ar fynediad at SBET ar sail statws proffesiynol.

Cwestiwn 2: Pa un o'r canlynol sydd heb ei restru'n benodol fel nod strategol neu amcan strategaeth Cymru gyfan?

- ☐ a) Gwellu diogelwch cleifion a defnyddwyr gwasanaethau.
- ☐ b) Gwellu profiadau dysgu.
- ☐ c) Dileu'n llwyr yr angen am leoliadau clinigol traddodiadol.
- ☐ d) Sicrhau cost-effeithiolrwydd a hyrwyddo ansawdd.

Cwestiwn 3: Pa rôl sydd gan 'Llwyfannau digidol a thechnolegau ymdrochol' yn strategaeth Cymru gyfan?

- ☐ a) Fe'u hystyir yn ychwanegiad bach, dewisol i hyfforddiant traddodiadol.
- ☐ b) Fe'u hanogir i wella profiadau dysgu a gwneud efelychu yn fwy effeithiol a diddorol.
- ☐ c) Fe'u defnyddir yn bennaf ar gyfer tasgau gweinyddol, nid dysgu uniongyrchol.
- ☐ d) Cyfyngir eu defnydd i gyfarwyddyd damcaniaethol yn unig.

7 Dulliau gwahanol mewn efelychiad

Mae efelychu digidol ym maes gofal iechyd yn ddull deinamig ac integredig sy'n cyfuno gwahanol ddulliau technolegol a dynol i greu amgylcheddau dysgu ymdrochol, gyda'r bwriad o hyrwyddo addysg, gwella gofal cleifion, a chefnogi'r gwaith o werthuso technolegau newydd.



Dyma rai o'r prif ddulliau:

1. Cleifion Safonol (SPs): mae'r rhain yn actorion hyfforddedig sy'n efelychu achosion cleifion go iawn, gan ganiatáu i weithwyr gofal iechyd proffesiynol ymarfer sgiliau clinigol a chyfathrebu mewn senario realistig.
2. Hyfforddwyr tasgau rhannol: modelau ffisegol neu ddyfeisiau sy'n atgynhyrchu rhannau penodol o'r corff dynol neu weithdrefnau gofal iechyd yw'r rhain. Maen nhw'n cael eu defnyddio i ymarfer sgiliau fel pwytho, pigladau neu fewndiwbio.
3. Realiti Rhithwir: Mae yn creu amgylcheddau ymdrochol sy'n cael eu cynhyrchu gan gyfrifiadur lle gall dysgwyr ryngweithio â senarios a modelau 3D. Mae'r dull hwn yn arbennig o ddefnyddiol ar gyfer triniaethau cymhleth a hyfforddiant llawfeddygol.
4. Realiti Estynedig (AR): Mae AR yn troshaenu gwybodaeth ddigidol i'r byd go iawn, gan wella'r profiad dysgu drwy gynnig cyd-destun ac arweiniad ychwanegol yn ystod gweithdrefnau.
5. Efelychiadau cyfrifiadurol: mae'r rhain yn rhaglenni meddalwedd sy'n efelychu sefyllfaoedd clinigol a phrosesau gwneud penderfyniadau. Maent yn aml yn cynnwys elfennau rhyngweithiol ac adborth i helpu dysgwyr i wella eu sgiliau.
6. Ymdrochi clinigol efelychiadol: mae hyn yn golygu creu amgylchedd clinigol realistig lle gall dysgwyr ymarfer rheoli gofal cleifion mewn lleoliad wedi'i reoli, heb risg. Mae'n aml yn cynnwys defnyddio manecwinaid manwl-gywir sy'n gallu dynwared ymatebion cleifion go iawn.
7. Efelychiadau hybrid: mae'r rhain yn cyfuno gwahanol ddulliau, fel defnyddio hyfforddwyr tasgau rhannol gyda chleifion safonol, i greu senarios hyfforddi mwy cynhwysfawr a realistig.

Mae'r dulliau hyn yn cynnig ffyrdd amrywiol ac effeithiol o wella dysgu a chanlyniadau gofal cleifion. (Conelius et al, 2023; CISL, D.D.).

Gweithgaredd 4

 10 munud

Myfyrion

Gwnewch eich nodiadau eich hun i ymateb i'r cwestiynau canlynol.
Pa ddulliau fyddai'n gweithio yn eich maes ymarfer chi orau a pham?

- Meddyliwch am y cyfyngiadau a'r cyfleoedd posibl o ddefnyddio efelychu digidol yn eich lleoliad ymarfer eich hun.
- Os yw'n bosibl, trafodwch hyn gyda chydweithiwr a gwnewch nodiadau ar eich casgliadau.

Provide your answer...

8 Sesiwn ôl-drafod i gefnogi dysgu ar sail efelychu

Beth yw arwyddocâd sesiwn ôl-drafod i gefnogi dysgu wedi'i efelychu?

Gellir ystyried ôl-drafodaeth fel trafodaeth ar ôl yr hyfforddiant sy'n arwain cyfranogwyr i fyfrio ar eu perfformiad, atgyfnerthu negeseuon allweddol, a'u cymhwyso i sefyllfaoedd yn y byd go iawn.



Mae ôl-drafodaeth yn rhan hanfodol o'r broses ddysgu am sawl rheswm:

1. Myfrio a gwybodaeth: mae ôl-drafodaeth yn galluogi dysgwyr i fyfrio ar eu profiadau, dadansoddi eu gweithredoedd, a deall y canlyniadau. Mae'r myfrio hwn yn helpu i nodi beth aeth yn dda a beth y gellid ei wella.
2. Atgyfnerthu dysgu: drwy drafod ac adolygu'r hyn a ddysgwyd, mae ôl-drafodaeth yn atgyfnerthu cysyniadau a sgiliau allweddol, gan eu gwneud yn fwy tebygol o gael eu cadw.
3. Nodi bylchau: mae'n helpu i nodi bylchau mewn gwybodaeth neu sgiliau, gan roi cyfle i fynd i'r afael â'r meysydd hyn cyn symud ymlaen i ddeunydd newydd.
4. Annog meddwl beirniadol: mae ôl-drafodaeth yn annog meddwl yn feirniadol a datrys problemau wrth i ddysgwyr werthuso eu perfformiad ac ystyried dulliau eraill.
5. Prosesu emosiynol: mae'n rhoi lle i ddysgwyr brosesu eu hemosiynau, yn enwedig ar ôl profiadau heriol neu llawn straen, sy'n gallu gwella eu llesiant cyffredinol a'u parodrwydd i ddysgu.
6. Gwelliant parhaus: mae ôl-drafodaeth reolaidd yn meithrin diwylliant o welliant parhaus, lle mae dysgwyr bob amser yn chwilio am ffyrdd o wella eu perfformiad a'u canlyniadau.

Drwy gynnwys ôl-drafodaethau yn y broses ddysgu, gall unigolion a thimau sicrhau dealltwriaeth ddyfnach a defnydd mwy effeithiol o'u gwybodaeth a'u sgiliau. Mae arwyddocâd gwerth ôl-drafodaeth fel rhan o'r broses ddysgu wedi cael ei ddewis gan [Pearse \(2015\)](#), ac mae ymchwil gan Secheresse et al (2021) yn awgrymu bod gwerth mewn defnyddio ôl-drafodaeth fel rhan o hyfforddiant efelychu oherwydd bod tystiolaeth ei fod yn arwain at wella gwybodaeth yn well.

8.1 Egwyddorion ôl-drafodaeth

Gellir gwella ôl-drafodaethau, fel ar gyfer pob math o ddysgu, i bawb dan sylw drwy ystyried rhai egwyddorion allweddol i'w cynnwys yn ystod y broses ôl-drafodaethol:

- Defnyddio Data Efelychiad: Mae efelychiadau digidol yn newid byd! Maen nhw'n caniatáu i ni recordio ac ailchwarae ein perfformiad, er mwyn i ni allu adolygu recordiadau sgrin, metrigau perfformiad, a chofnodion penderfyniadau ar gyfer adborth gwrthrychol. Mae hyn yn newid y sgwrs o 'beth ydw i'n meddwl wnes i' i 'beth

mae'r data'n ei ddangos', gan ei gwneud yn fwy adeiladol ac yn seiliedig ar dystiolaeth.

- Sefydlu Diogelwch Seicolegol mewn Ystafell Rithwir: Mae creu lle diogel hyd yn oed yn bwysicach mewn amgylchedd rhithwir lle gall arwyddion dieiriau fod yn anodd. Dylai'r hwylusydd osod y naws drwy sefydlu rheolau sylfaenol ar gyfer yr alwad fideo, fel 'dim barnu' neu 'pob camera ymlaen os oes modd'. Mae hyn yn helpu cyfranogwyr i deimlo'n gyfforddus yn rhannu camgymeriadau, hyd yn oed os nad ydyn ni yn yr un ystafell.
- Hwyluso Strwythuredig: Gall offer digidol ein helpu i aros ar y trywydd iawn gyda'r ôl-drafodaeth. Gall yr hwylusydd ddefnyddio rhannu sgrin i arwain y grŵp drwy wahanol gamau'r ôl-drafodaeth, fel dangos sleid ar gyfer y cam 'Ymatebion' ac yna un arall ar gyfer y 'Dadansoddiad'. Mae hyn yn cadw ffocws y sgwrs ac yn sicrhau ein bod yn ymdrin â'r holl amcanion dysgu, hyd yn oed os nad ydym yn yr un ystafell.
- Annog Myfyrio Drwy Awgrymiadau: Gall fod yn anodd cael pawb i gymryd rhan mewn ôl-drafodaeth ddigidol, felly dylai'r hwylusydd ddefnyddio cwestiynau penodol, penagored i annog myfyrio dyfnach. Er enghraifft, gall 'Gan edrych ar y data, pa benderfyniad fydddech chi'n ei newid a pham?' ein helpu i feddwl yn fwy beirniadol. Gall defnyddio nodweddion fel cyfleuster sgwrsio neu fwrdd gwyn digidol ar y cyd hefyd ganiatáu cyfranogiad ehangach, dienw.
- Cysylltu Profiad Rhithwir ag Ymarfer yn y Byd Go iawn: Yr ôl-drafodaeth yw'r bont rhwng y byd digidol a'r byd clinigol. Dylem gysylltu'n benodol y sgiliau a ddysgom yn yr efelychiad, fel defnyddio rhyngwyneb rhithwir neu reoli tîm o bell, â'u cymwysiadau yn y byd go iawn. Mae hyn yn sicrhau bod gwerth yr hyfforddiant yn glir a bod modd gweithredu arno.

